

BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

CYFNOD: 1 IONAWR 2020 - 30 EBRILL 2020

**CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN
CYFARFODYDD CABINET**

Cysylltwch â'r Swyddfa Cefnogi'r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth

Teitl yr Adroddiad	Crynodeb o'r Materion a'r Argymhelliad Arfaethedig	Statws goleuadau traffig craffu	Ymgynghoreion	Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad
--------------------	--	---------------------------------	---------------	-----------------------------------

Ionawr 2020

Arweinydd

Uchelgais Prifddinas - Agenda Polisi Adnewyddiedig	Ystyried Agenda Polisi Adnewyddiedig Uchelgais Prifddinas			Cabinet
--	---	--	--	---------

Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd

Polisi Tramgwyddau Rheoli Gwastraff	Ystyried y polisi Tramgwyddau Rheoli Gwastraff			Cabinet
-------------------------------------	--	--	--	---------

Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain ganrif (Band B): Ailddatblygu ac ehangu Ysgol Uwchradd Cathays	Yn ystod ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017 ystyriodd Cyngor y Cabinet adroddiad oedd yn nodi cynlluniau blaenoriaethu'r Cyngor i'w cynnal yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B Caerdydd. Diben yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar gynigion i ddatblygu safle presennol ysgol Uwchradd Cathays, yn unol â chynlluniau blaenoriaethu Band B.	Amber/Ambur		Cabinet
Gwerthuso perfformiad ysgolion Caerdydd 2018/19	The report provides an evaluation of the performance of Cardiff schools in the academic year 2018/19. The report draws on a range of data and information including outcomes of Estyn inspections, outcomes at Key Stage 4 and 5, attendance, exclusions and the number of young people not progressing to education, employment or training.			Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Darpariaeth blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd i wasanaethu Adamsdown a Sblot	Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2019 awdurdododd y Cabinet swyddogion i ymgynghori ar gynigion ar gyfer darpariaeth uwchradd ac ôl 16, darpariaeth cynradd a blynyddoedd cynnar, ac uwchraddio cyfleusterau cymunedol. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 16 Medi a 4 Tachwedd 2019. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd ag argymhellion ar sut ddylid bwrw ymlaen.	Amber/Ambr		Cabinet
CTY Radur, Pentre-poeth, Creigiau a Sain Ffagan a'r Tyllgoed	Ystyried canlyniad yr ymgynghoriad a chytuno ar ffordd ymlaen			Cabinet
CTY - Symud a Chynllunio ymestyn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg	Ystyried canlyniad yr ymgynghoriad a chytuno ar ffordd ymlaen			Cabinet

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Dileu Ardrethi Annomestig Genedlaethol	Diben yr adroddiad fydd i gael awdurdodiad ffurfiol i ddileu dyledion Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sydd yn fwy na £100,000 mewn gwerth. Mae'r cais wedi ei wneud yn unol â Rhan 3, adran 2 o Gyfansoddiad Cyngor Caerdydd, swyddogaeth Penderfynu Gweithredol rhif 20			Cabinet
--	---	--	--	---------

Housing & Communités

Darpariaeth Tai Pobl H?n Maelfa a Llaneirwg	Mae'r ddau broject adeiladu newydd yma wedi eu cynnwys yn rhaglen adeiladu tai newydd y Cyngor a bydd yn cyflenwi fflatiau pobl h?n i safon parod at ofal yn ogystal â gofod cymunedol.	Green/Gwyrdd		Cabinet
---	---	--------------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	<p>Mae'r costau datblygu a amcanestynnir ar gyfer y projectau hyn yn fwy na £5 miliwn ac felly mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i'n galluogi ni i dendro am gontractwr.</p> <p>Y costau adeiladu a amcanestynnir ar gyfer Llaneirwg yw £10.3 miliwn. Bydd y cynllun yn helpu i gyflenwi 60 o fflatiau hygyrch a gofod cymunedol cysylltiedig.</p> <p>Y costau a amcanestynnir ar gyfer Maelfa yw £10.1 miliwn. Bydd y cynllun yn helpu i gyflenwi 41 o fflatiau hygyrch a gofod cymunedol cysylltiedig.</p>			

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant

<p>Ailgomisiynu Gwasanaethau Cymorth Tymhorol a Gofal Cartref</p>	<p>Roedd yr adroddiad cabinet ar 20 Medi 2018 yn galw am gymeradwyaeth ar gyfer ymagwedd at Wasanaethau Gofal Cartref a oedd yn seilieig ar ganlyniadau lleol.</p> <p>Bydd yr Institute of Public Care (IPC) yn cefnogi cyngor Caerdydd i ymgysylltu â'r farchnad gan gynnwys amrywiol adrannau (system cyfan) i ddatblygu gwasanaeth gwell, cadarnach, hyblyg a blaengar sy'n diwallu ystod o anghenion oedolion a phlant sy'n derbyn gofal a chymorth.</p> <p>Bydd y model gwasanaeth yn cael ei gynllunio i ystyried rhyngddibyniaethau eraill y mae'r cyngor yn gweithio drwyddynt sy'n cynnwys Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) ac ymagwedd yn seiliedig ar gryfhau.</p> <p>Law yn llaw â manyleb ar gyfer y gwasanaeth fe fydd set o ddeilliannau ar gyfer dinasyddion gyda dangosyddion perfformiad allweddol a set o safonau ansawdd.</p>	<p>Amber/Amb r</p>		<p>Cabinet</p>
---	---	------------------------	--	----------------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol	Pennu cyfrifoldebau Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ynghylch codi tâl am gostau wrth ddarparu gofal a chymorth preswyl ac amhreswyl, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Green/Gwyrdd		Cabinet

Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth

Project Trafnidiaeth Gorllewin Canol y Ddinas - Rhoi Tendir Cam 1	Mae Cam 1 project trafndiaeth Gorllewin Canol y Ddinas wedi ei yrru allan i dendr (Hydref 2019). Oherwydd maint y tendr bydd angen i ddyfarnu'r tendr gael ei gymeradwyo gan y Cabinet.			Cabinet
Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Aer Glân	Datblygu Papur Gwyn drafft a lunnir gan yr ymgynghoriad Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân a gynhaliwyd yn nhymor y Gwanwyn 2018. Bydd y Papur Gwyn yn cynnig gweledigaeth hir dymor i rwydwaith trafndiaeth y ddinas, yn alinio'n agos â'r rhaglen waith aer glân barhaus y mae'r Cyngor yn ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru.	Amber/Ambr		Cabinet

Chwefror 2020

Cynllun Corfforaethol	I ystyried y Cynllun Corfforaethol.			Cabinet
-----------------------	-------------------------------------	--	--	---------

Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd

Cais am Gynnydd yn nhâl Cerbydau Hacni	<p>Mae cynnig wedi'i dderbyn gan Dragon Taxis i newid y tariff teithio y gall cerbydau hacni (taxis) ei godi yn y ddinas.</p> <p>Caiff cyngor ardal bennu neu amrywio ffi ar gyfer llogi tacsï dan ddarpariaethau Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol), 1976.</p>	Green		Cabinet
--	---	-------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	<p>Pennwyd ffioedd teithio Dinas Caerdydd ar gyfer Cerbydau Hacni ar 12 Mawrth 2018</p> <p>The City of Cardiff's tariff of fare for Hackney Carriages was last set in 12 March 2018</p>			

Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

<p>Consortiwm Canolbarth y De - Gwasanaethau Ymgynghorol Addysg ar y Cyd</p>	<p>Comisiynodd pum Aelod Cabinet Addysg Cyd-bwyllgor Consortiwm Canolbarth y De (CSC) Bartneriaeth ISOS i gynnal adolygiad annibynnol o'r Consortiwm i sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn hyfyw yn ariannol yn y dyfodol rhagweladwy.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor ar 21 Mai 2019 a gymeradwyodd yr argymhelliad yn adroddiad ISOS i ailfodelu dull cyfredol y consortiwm o ddarparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer gwella ysgolion.</p>	Green/Gwyrdd		Cabinet
--	---	--------------	--	---------

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Adroddiad y Cyllid	Argymell bod cynigion cyllidebol y Cabinet yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ynghyd â'r argymhellion statudol angenrheidiol.	Red/Coch		Cabinet Cyngor
Monitro'r Gyllideb Mis 9	Bydd yr adroddiad yn nodi sefyllfa monitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chyfrifon refeniw a chyfalaf. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi amrywiant allweddol yn seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol.			Cabinet
HACCP Diogelwch Bwyd Corfforaethol	Mae'r adroddiad yn darparu adroddiad Dadansoddiad Perygl a Phwyntiau Rheoli Allweddol sydd ei angen er mwyn sicrhau fod bwyd a gaiff ei baratoi ar safleoedd y Cyngor yn bodloni'r canllawiau diogelwch bwyd presennol. Mae'r adolygiad wedi ei ddrafftio i fodloni'r cynllun gweithredu e-coli, a gynhyrchwyd gan y Cyngor yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus ar e-coli ac sydd wedi ei adolygu a'i			Cabinet

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	ddiweddaru yn flynyddol gan Grŵp Diogelwch Bwyd y Cyngor			
Cynllun Asbestos Corfforaethol	Bydd yr adroddiad yn darparu Cynllun Rheoli Asbestos Corfforaethol i'w gytuno gan y Cabinet a'i weithredu ar draws holl Safleoedd y Cyngor. Mae'r Cynllun yn ofyniad cyfreithiol o dan Reolaeth Rheoliadau Asbestos 2012. Mae'r cynllun yn manylu ar y trefniadau sydd yn eu lle i reoli asbestos a'r rheolau i'w dilyn wrth gyflawni gwaith ar Safleoedd y Cyngor sydd yn cynnwys asbestos	Green		Cabinet
Newid Fflyd o ran Cerbydau Sbwriel a Chodi	Cytuno ar y llwybr cyllid gofynnol a'r cynllun newid fflyd ar gyfer Fflyd Cerbydau Sbwriel a Llwytho Rheoli Gwastraff. Gwerth contract tua £11miliwn.	Amber/Ambr		Cabinet

Tai a Chymunedau

Strategaeth Llyfrgelloedd Cyngor Caerdydd - cyflawni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	<p>Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad 'Adeiladau Cymunedau Gwydn Trwy Ddatblygiad Pellach Hybiau Cymunedol' ym mis Mai 2018.</p> <p>Yn yr adroddiad, cynigwyd dull newydd o ddarparu gwasanaethau llyfrgell, yn adeiladu ar arfer gorau ac i gyflwyno gwasanaethau llyfrgell o safon a digwyddiadau ledled y ddinas.</p> <p>Bydd y strategaeth hon yn dangos sut bydd Cyngor Caerdydd yn bodloni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac yn adeiladu ar y prif themâu a grybwyllir yn yr adroddiad hwnnw, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu a rheoli llyfrau' • Treftadaeth, diwylliant a gwybodaeth; • Llythrennedd plant a chymorth â'r cwricwlwm; • Creadigrwydd digidol; • Ymgysylltu â'r gymuned a lles. 	Amber/Ambr		Cabinet
--	--	------------	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
--------------	---	-------------------------------	------------	----------------

Buddsoddi a Datblygu

Swyddfa Graidd - Achos Busnes Llawn	Bydd yr adroddiad yn cyflwyno'r achos busnes llawn ar gyfer y Swyddfa Graidd newydd ar gyfer y Cyngor	Amber/Ambr		Cabinet
-------------------------------------	---	------------	--	---------

March 2020

Diwylliant a Hamdden

Yr Eglwys Norwyaidd	Bydd yr adroddiad yn cytuno ar y camau nesaf ar gyfer sicrhau partner i fuddsoddi yn yr Eglwys Norwyaidd a'i gweithredu.	Amber/Ambr		Cabinet
---------------------	--	------------	--	---------

Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Polisi Tâl	Ystyried y Polisi Tâl ar gyfer 2020-21			Cabinet
------------	--	--	--	---------

Tai a Chymunedau

Gatiau Lonydd Cefn ar Briffyrdd Cyhoeddus - Polisi a Strategaeth Cyngor Caerdydd 2020	<p>Mae gatiau lonydd cefn yn fesur syml ac effeithiol sy'n helpu i leihau lefelau o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai barhau er anfantais i gymunedau lleol fel arall.</p> <p>Yn 2008, gweithredodd Cyngor Caerdydd bolisi gosod gatiau lonydd cefn, ac mae'n parhau i gefnogi a chydabod pwysigrwydd y cynlluniau hyn. Ers hynny, mae gatiau wedi'u gosod mewn nwy na 180 o lonydd, gan fod o fudd i tua 7,500 eiddo.</p> <p>Yn 2014, diddymwyd y pwerau deddfwriaethol ar gyfer gosod gatiau lonydd cefn dan y Ddeddf Priffyrdd, ac fe'u deddfwyd fel Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma. Er ei bod yn</p>			Cabinet
---	---	--	--	---------

Report Title	Summary of Issues & Proposed Recommendation	Scrutiny Traffic light status	Consultees	Decision Maker
	<p>ymddangos bod gorchmynion gosod gatiâu cefn a GDMACau yn debyg, mae rhai gwahaniaethau gweithdrefnol a gyflwynwyd yn rhan o'r gofynion deddfwriaethol newydd.</p> <p>Diben yr adroddiad hwn yw cynnig polisi a strategaeth gosod gatiâu lonydd cefn newydd yn unol â'r gofynion deddfwriaethol cyfredol, gan nodi'r ystyriaethau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau hyn.</p>			

Buddsoddi a Datblygu

Prif Gynllun Ardal y Gamlas	Uwchgynllun newydd ar gyfer datblygu Ardal y Gamlas yng nghanol y ddinas yn y dyfodol i ddenu buddsoddiad ac ehangu cynnig masnachol canol y ddinas.	Amber/Ambr		Cabinet
-----------------------------	--	------------	--	---------

Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth

Adroddiad Adolygu a Chytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd	<p>Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) cyfredol ar 28 Ionawr 2016. Yn unol â deddfwriaeth mae angen i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiad llawn o'u CDLI wedi 4 blynedd o'i fabwysiadu. Cam cyntaf y broses hon yw paratoi ac ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni CDLI Newydd Caerdydd drafft. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 28 Tachwedd 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y dogfennau hyn rhwng 14 Ionawr 2020 ac 11 Chwefror 2020.</p> <p>Diben yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ganfyddiadau'r broses ymgynghori hon ac argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu Terfynol a'r Cytundeb Cyflawni'r CDLI Newydd, a'u hanfon ymlaen i Lywodraeth Cymru iddi gytuno arnynt ac, yn amodol ar fod cytundeb yn cael ei roi, yn dechrau ar y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd.</p>			Cabinet
---	---	--	--	---------